# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## (45)v5

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Dyfarniad y Goruchaf Lys ar Erthygl 50

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

'Apêl Gadael yr Undeb Ewropeaidd' Erthygl 50 y Goruchaf Lys (Saesneg yn unig)

## 4 Datganiad gan y Prif Weinidog: "Sicrhau Dyfodol Cymru": Pontio o'r Undeb Ewropeaidd at berthynas newydd ag Ewrop

(60 munud)

**Dogfen Ategol**
[Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop]

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod a Chodi Safonau

(45 munud)

## 6 GOHIRIWYD TAN 7 CHWEFROR 2017: Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel

(0 munud)

## 7 TYNNWYD YN OL: Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb 2015-16, gan gynnwys Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016

(0 munud)

## 8 Dadl: Gweithio gyda Chymunedau i Greu Amgylcheddau Lleol Gwell

(60 munud)

**NDM6211** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod effaith gyfunol materion sy'n gysylltiedig ag ansawdd yr amgylchedd lleol ar lesiant cymunedau.

2. Yn cefnogi:

a) pwyslais cynyddol ar weithgareddau atal gyda rhagor o gydweithio ar draws sectorau; a

b) cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ganfod a chyflawni atebion ar gyfer gwella'r mannau lle y maent yn byw.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder mai ychydig iawn o Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer sydd wedi cael eu dirymu.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Ionawr 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Ionawr 2017 i'w hateb ar 24 Ionawr 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0387(FM)

2. **David Rees (Aberafan):** Yn dilyn yr araith gan Brif Weinidog y DU ddydd Mawrth diwethaf, a wnaiff Prif Weinidog Cymru roi manylion blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i ddiogelu economi Cymru? OAQ(5)0402(FM) **TYNNWYD YN OL**

3. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael â Phrif Weinidog y DU ynghylch polisi rhanbarthol ar gyfer y dyfodol? OAQ(5)0400(FM)

4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer parodrwydd ar gyfer y gaeaf yn GIG Cymru? OAQ(5)0386(FM)

5. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ynglŷn â gorsaf bŵer Aberddawan yn sgil dyfarniad Llys Cyfiawnder Ewrop fis Medi diwethaf? OAQ(5)0403(FM)**W**

6. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau'r Grid Cenedlaethol yn Ynys Môn? OAQ(5)0399(FM)**W**

7. **Rhianon Passmore (Islwyn):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU i wella gwasanaethau rheilffordd presennol de-ddwyrain Cymru? OAQ(5)0397(FM)

8. Neil McEvoy (Canol De Cymru): Pa ganran o gyllideb Llywodraeth Cymru a gaiff ei dyrannu i atal twyll? OAQ(5)0385(FM)

9. Lynne Neagle (Torfaen): Sut y bydd y Prif Weinidog yn sicrhau bod ystyried hawliau plant yn ganolog i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â gadael yr UE? OAQ(5)0398(FM)

10. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0389(FM)

11. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0392(FM)

12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith dilynol a wnaed yn sgil adroddiad Ockenden i ofal ar ward Tawel Fan? OAQ(5)0390(FM)

13. Nathan Gill (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella addysg yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0391(FM)

14. **Jeremy Miles (Castell-nedd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o botensial yr economi las? OAQ(5)396(FM)

15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am statws mesurau arbennig presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(5)0394(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 31 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Diwygio Llywodraeth Leol (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Yr Adolygiad Hazelkorn o Addysg yng Nghymru (45 munud)
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 (15 munud)
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 (15 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2015-2016, gan gynnwys Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2016 (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Ymchwiliadau'r Pwyllgor

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

**Dydd Mawrth 7 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cyflyrau ar y Galon (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Menter Ymchwil Busnesau Bach (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel (45 munud)
- Dadl: Sicrhau Dyfodol Cymru: Trefniadau pontio ar gyfer symud o aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop (90 munud)

**Dydd Mercher 8 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Torfaen) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Sefydlu'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth (45 munud)
- Gorchymyn y Cyngor Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (15 munud)
- Dadl: Môr-lynnoedd Llanw (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ei waith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (60 munud).
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)